

Casglu a Chyfrif Mes

Casglu mes yw teitl y profiad dysgu hwn. Fodd bynnag, gallech gasglu unrhyw eitem fach a mawr yn yr awyr agored (cerrig, concyrs, egroes (rosehips) ac ati).

Mae'r hydref eleni yn dymor arbennig i fes a ffrwythau ar draws llawer o goedwigoedd cefn gwlad. Mae ein coed derw wedi bod yn cynhyrchu cnwd mawr o fes eleni. Mae hi'n flwyddyn 'gnydiog' (masting year) - un o ddirgelion natur pan fydd coed yn cynhyrchu llawer mwy o gnwd na'r arfer. Digwyddiad naturiol yw hwn pan fydd rhai rhywogaethau coed yn cynhyrchu cnydau mawr iawn o hadau ambell flwyddyn, ond weithiau hefyd yn cynhyrchu llawer llai o hadau mewn blynyddoedd eraill. 'Does neb yn gwybod yn iawn pam fod hyn yn digwydd ond mae rhai yn meddwl ei fod yn gysylltiedig â'r tywydd a hinsawdd.

- Gellir creu'r cyd-destun drwy ddefnyddio straeon fel 'Maes y Mes – Mwyaren a'r Lleidr' (5-8 oed) neu 'Percy the Parkeeper - The Lost Acorns' a straeon eraill perthnasol i'r pethau yr ydych yn eu cyfrif.
- Mae plant i gyd yn hoffi chwilio am eitemau coll ac mae'n bwysig creu yr ymdeimlad hwn o gyffro a brwdfrydedd fel rhan o'r profiad cyfan. Efallai y gallwch fanteisio ar y ffaith fod plant wedi canfod eitem yn yr awyr agored a dod â'r eitem honno i'w dangos ichi. Yn aml mae plant yn canfod eitemau a dechrau eu casglu ohonynt eu hunain, yn annibynnol.
- Manteisiwch ar eu diddordeb a'i ddefnyddio i ddatblygu nifer o wahanol sgiliau cyfrif.
- Cyfrif syml Mae cyfrif y mes yn weithgaredd syml y gellir ei wneud wrth iddynt ddod o hyd iddynt, ac ar ôl eu casglu. Mae hefyd yn gyfle gwych i gyfrif niferoedd mawr, yn enwedig gan fod cymaint ohonyn nhw ar gael mewn blwyddyn gnydiog.

Sgiliau:

- Cyfatebiaeth un i un.
Ydyn nhw'n gallu ymarfer cyfrif a chyfatebiaeth un i un? Ydyn nhw'n gallu ystyried y dulliau gorau o gyfrif er enghraifft trwy roi'r holl eitemau mewn rhes, mewn grwpiau, neu eu symud o un cynhwysydd i un arall?
- Adnabod rhif a chyfateb rhifau a chyfansymiau
A allant nodi neu ysgrifennu faint sydd ganddyn nhw fel rhif? A allant gyfateb y niferoedd gyda'r rhif cywir neu greu llinell rif ar gyfer yr eitemau? A allan nhw ddewis y rhif cywir i fynd gyda nifer y mes a gasglwyd ganddynt?
- Amcangyfrif
Tua faint o fes ydych chi wedi eu casglu? Allwch chi ddyfalu tua faint sydd mewn ardal benodol ar y ddaear neu ar gangen llwyn neu goeden? Faint sydd gennych chi yn eich bwced? Sut ydych chi'n amcangyfrif faint a allai fod gennych? Ai dyfalu neu amcangyfrif ydych chi?
- Cyfrif fesul dau, fesul pump ac ati.
Allwch chi grwpio'ch mes i'w cyfrif ac a allwch chi ymarfer cyfrif fesul dau, fesul pump, fesul deg ac ati ar ôl ichi eu grwpio? Allwch chi eu casglu mewn grwpiau a chyfrif wrth fynd yn eich blaen?
- Amser
Fe allech gyflwyno amser trwy amseru faint y gall y plant ei ganfod mewn amser penodol Beth am weld pwy sy'n casglu'r nifer fwyaf o eitemau mewn amser penodol?

- Pwyso
A yw swm penodol yn pwyso cyfanswm penodol? Os yw 30 mesen yn pwyso 20 gram, a fydd 20 gram o fes bob amser yn 30 mesen? A yw mes /concyrs i gyd yn pwyso'r un faint?
- Adio, tynnu a rhannu.
Faint ydym ni wedi'i gasglu i gyd? A oedd gennym gyfanswm wedi eu casglu o'r blaen? Faint mwy sydd angen ei gasglu? Faint ydyn ni wedi'i gasglu eisoes? A allwch chi osod her i blentyn i adio cyfanswm mes dau neu dri phlentyn? Rhoi symiau gyda rhifau ar goll, nodi'r cyfanswm a c beth yw'r rhifau sydd ar goll yn y frawddeg rif.